**Jane Hutt AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

4 Hydref 2019

Annwyl John,

Mae'r llythyr hwn yn rhoi'r diweddaraf ichi am y gwaith yr ydym wedi'i wneud i wella tryloywder y data ar gydraddoldeb a gyhoeddir gan gyrff cyhoeddus Cymru. Mae hyn yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor, yn yr adroddiad ar rianta a chyflogaeth yng Nghymru, i "gyhoeddi data cyflogaeth sy'n ofynnol yn unol â dyletswyddau sector cyhoeddus Cymru mewn un lleoliad ar wefan Llywodraeth Cymru, mewn fformat sy'n ei gwneud yn bosibl dadansoddi'r data yn rhwydd".

Wrth dderbyn yr argymhelliad hwnnw dywedom, gan fod cyfrifoldeb ar weithwyr y sector cyhoeddus i gydymffurfio â'r ddyletswydd, y byddem yn gweithio gyda chyrff y sector cyhoeddus i sicrhau bod eu data ar gydraddoldeb yn cael eu cyhoeddi fel data agored, a darparu un lleoliad er mwyn sicrhau bod modd cael mynediad at yr wybodaeth hon yn rhwydd.

Eleni, am y tro cyntaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru daenlenni data agored i gyd-fynd â'r Adroddiad Cydraddoldeb Cyflogwyr ar gyfer 2017-18. Wedi hynny gweithiom gyda chyrff cyhoeddus, a'u cefnogi, drwy rannu canllawiau ar gyhoeddi tablau data agored, dosbarthu Cwestiynau Cyffredin a chynnal gweminarau er mwyn rhannu arferion gorau. O ganlyniad i'r gwaith hwn gall defnyddwyr yn awr gael gafael ar ddolenni i ddata Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus mewn un lleoliad yn yr adran ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth ar ein gwefan StatsCymru[1]. Mae'n haws, felly, i ddefnyddwyr ddod o hyd i'r wybodaeth a'i dadansoddi.

Mae wedi bod yn galonogol gweld cefnogaeth gadarnhaol y cyrff cyhoeddus yn ein hymgais i ddangos mwy o dryloywder ac atebolrwydd yn y ffordd y mae data cydraddoldeb cyrff cyhoeddus yn cael eu cyhoeddi. Nid yw pob corff cyhoeddus yn cael ei gynnwys ar hyn o

[1]https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Public-Sector-Equality-Duty

Bae Caerdydd • Bae Caerdydd
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

bryd. Felly, byddwn yn parhau i weithio gyda'r cyrff hynny nad ydynt wedi eu cynnwys i'w hannog i gyhoeddi taenlenni data agored y byddwn yn gallu eu hychwanegu at y rhestr gyhoeddedig.

Rydym yn ymwybodol hefyd y bydd anghysondeb o ran y categorïau a ddefnyddir gan y cyrff cyhoeddus i gyhoeddi data. Rydym yn awyddus, fodd bynnag, i gymryd y cam cyntaf, haws, o ddarparu un man canolog ar gyfer cael mynediad at y data hyn.

Yn ein barn ni, mae sicrhau bod y data agored hyn ar gael mewn un lleoliad yn dangos ymrwymiad sector cyhoeddus Cymru i gymryd camau breision ymlaen o ran cydraddoldeb a hawliau dynol ac i'w diogelu.

Gobeithio y bydd yr ateb hwn yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor.

Yours sincerely,

Jane

**Jane Hutt AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip